

Cofion

Yr ydym yn codi amryw yn yr ofalaeth o flaen yr Arglwydd yn ein gweddïau heddiw eto. Cofiw'n yn arbennig am Elliw Williams (Llansannan) sydd wedi cael llawdriniaethau i'w llygad yn ddiweddar, hefyd Glyn Jones (Nantglyn) sy'n parhau yng Nghanolfan Walton, a Howell Jones (Nantglyn) ac Ann Owen (Llanefydd) sydd yn Ysbyty Glan Clwyd. Cofiw'n yn ein gweddïau hefyd am eraill o'n plith sy'n wynebu amrywiol driniaethau. Cyflwynwn y cleifion oll i ofal yr Arglwydd, gan hyderu y byddant yn cael eu diogelu a'u cadw'r dyddiau hyn.

Prosiect i roi fersiwn Beibl.net o rai o'r Salmu ar y we

Mae prosiect newydd ei gychwyn i roi fersiwn Beibl.net o rai o'r Salmu ar y we. Y gobaith yw recordio pobl yn darllen eu hoff Salm tra bo grŵp o gerddorion yn chwarae yn y cefndir. Wedyn fe fydd criw o wahanol bobl yn gosod lluniau efo nhw i greu fideos bach i fynd ar wefan www.gobaith.org. Fe fydd unrhyw un, wedyn, yn gallu eu defnyddio nhw i weddio neu fel myfyrdod neu, efallai, eu lawrlwytho i'w defnyddio mewn addoliad capel/cyfarfod gweddi ayyb.

Estynnir gwahoddiad i unrhyw un ddod i ddarllen eu hoff Salm mewn sesiwn recordio yn Festri Llansannan nos Lun, Chwefror 25 rhwng 7.00 a 9.00. Os oes gennych ddiddordeb, a fyddwch cystal â ffonio Andy Hughes (01678 530347 / 07968 826401) i adael iddo wybod eich bod yn dod a hefyd pa Salm ydach chi am ei darllen, os gwelwch yn dda? (Mae croeso i chi gyd-ddarllen.)

I ddod

- **Christian Viewpoint** – Cyfarfod i ferched yng Nghanolfan Gymunedol Bae Cinmel nos Lun, Mawrth 11eg am 7.30 yng nghwmni Marian Whitaker o Kingdom Krafts, Llandudno “From ship to shop and beyond”. £3 yn cynnwys bwffe.
- Bydd y cyfarfod nesaf ar gyfer **Chwiorydd Eglwysi Bro Aled** ar Nos Fawrth, Mawrth 12fed, ac mae trefniadau ar y gweill i fynd i ymweld â'r Eglwys Gadeiriol yn Llanelwy. Mwy o fanylion i ddilyn.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 24^{ain} Chwefror 2013

Darlleniad y Dydd

Lefiticus 16: 29–34
(BCND tud.106 / BCN: tud.97)

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Bore da! Ydach chi wedi cael gorchymyn i orffwys erioed? Do, debyg! Efallai mai aelod o'r teulu neu feddyg sydd wedi rhoi'r cyngor yma i chi. Dwi'n meddwl 'mod i'n eich adnabod yn ddigon da bellach i wybod nad yw'r cyngor yma yn cael llawer o ddylanwad ar yr un ohonoch ac mai cario 'mlaen fel arfer fyddwch chi er gwaetha doethineb y cyngor!

Yn y darlleniad yma heddiw mae Duw yn gosod deddf sy'n gorchymyn i ni orffwys. Mae'n dweud wrthym am osod un diwrnod o'r neilltu i stopio gwneud pob peth ac i 'ymddarostwng'. Ystyr hynny ydi plygu pen a chymryd amser i feddwl o ddifri pa mor fawr ydi Duw, sut mae hi go iawn rhyngom ni a Duw, a sut y mae Duw yn dangos ei gariad mawr tuag atom.

Er na fyddwn ni yn rhai da iawn am gymryd y cyngor i orffwys, rydan ni'n gallu rhoi amser i feddwl o ddifri am ambell i beth. Rwy'n cofio bod ar un aelwyd leol pan oedd hi'n amser penderfynu pa dractor newydd i'w gael. Roedd yr wybodaeth i gyd ar y bwrdd. 'Brochures' o bob math ym mhobman! Maint, cryfder y gyrriant, hyblygrwydd yr hydrolics, cost (wrth gwrs!), gwerth am arian a phob agwedd arall i gyd o dan ystyriaeth fanwl. Roedd y wybodaeth dechnegol gan yr amrywiol gwmnïau gwahanol ar flaen bysedd mab y fferm a phob agwedd wedi ei phwyso a'i mesur yn ofalus cyn gwneud y penderfyniad. Mae hyn yn debyg i gadw'r gorchymyn yma i ymddarostwng.

Roedd hi'n amlwg fod y teulu darbodus yma wedi rhoi amser go iawn o'r neilltu i feddwl o ddifri ynglyn â'r tractor newydd. Roeddent wedi ystyried “ydi'r newid ei werth o? Pa fantais fydd 'na i ni? Pa wahaniaeth fydd 'na o ran effeithiolrwydd o ddydd i ddydd? Fedra i fforddio'r newid?” Ac yna'r ystyriaeth bwysicaf efallai – “fedra i fforddio peidio newid?” Wrth ystyried buddsoddi yn y newydd y byddwn, gan amlaf, yn pwyllo, yn cymryd ein hamser ac yn ystyried o ddifri.

Eisiau perthynas newydd hefo ni y mae Duw. Dyna pam ei fod yn gorchymyn i ni gymryd amser ac ymddarostwng o'i flaen. Rhoi'r gorau o'r amser a gawsom i bwysio a mesur gwerth bywyd yng ngoleuni cariad Duw. Ond y mae Duw yn gwneud mwy – llawer mwy na rhoi'r amser yma i ni yn unig. Wrth iddo ddod â ni i hiraethu am berthynas newydd hefo Duw y mae hefyd wedi trefnu ei bod hi'n bosibl i ni gael ein glanhau o'n holl bechodau. Dyma oedd yn digwydd ar ddydd y cymod. Dyma sy'n digwydd wrth i ni ddod i berthynas newydd hefo Duw, mae'n ein cymodi ag ef ei hun yng ngwaed Iesu ac yn ein golchi'n lân er mwyn i ni fod mewn perthynas iawn ag Ef ei hun am byth.

Ystyriwn felly: fedra i fforddio peidio newid fy mherthynas hefo Duw? Diolch iddo – y mae'n cynnig, trwy ei Air a glywn heddiw, ddydd cymod a glanhad eto o'i ras i ni!

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Llun • **CAP (Grŵp genod bl. 7-11)** yn y Granar yn Llansannan am 4.30.
- Estynnir gwahoddiad i chi **ddarllen eich hoff Salm** (fersiwn Beibl.net) mewn sesiwn recordio yn Ffestri Llansannan o 7.00 ymlaen. Mwy o fanylion ar y cefn.
- Mawrth
Mercher
lau • **Adnabod Dawn** yn Ffestri Capel y Groes am 7.30.
- Grwpiau Tai **Adnabod** yn cyfarfod.
 - **Cyfarfod Plant** yn Llansannan am 3.15.
 - **Astudiaeth Feiblaidd** dan arweiniad Tom Williams yn Llanefydd am 7.30.
- Gwener • **C.I.C.** yn mynd i Fowlio 10. Cychwyn o faes parcio'r capel yn Llansannan am 7.00, cyrraedd yn ôl am 9.45. Enwau i Rhodri erbyn nos Fercher, os gwelwch yn dda. Y gost fydd £10 y pen.
- Sadwrn • **Darlithoedd DAWN Cymru** yng Nghapel Seion, Baker Street, Aberystwyth SY23 2BJ. (Paned am 10.00, y darlithoedd yn cychwyn am 10.30.)
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, bydd Rhodri yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llansannan

- Sul yma Bydd y Parch. Hywel Edwards yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- lau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd yn y Ffestri am 7.30.
- Gwener Cynhelir Swper Gŵyl Ddewi Cymdeithas Llansannan yn y Ffestri am 7.00. Yn dilyn y swper ceir sgwrs am Lansannan gan Yr Athro Gareth Wyn Jones. Enwau ac addewidion bwyd i Ann Morris (870623) neu Rhiannon Evans (870525), erbyn dydd Llun, Chwefror 25ain, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Cyhoeddiadau

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa yn Neuadd Llanfair am 10.00 ac yng Nghewn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghewn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Mercher Bydd Noson Agoriadol Dorcas yn Ffestri Cefn Meiriadog am 7.30. Bydd amryw yn rhannu eu hoff rysait a bydd cyfle i'w blasu! Cyfle hefyd i gael blas o'r hyn sydd gan Iesu ar ein cyfer heddiw. Croeso i unrhyw ferch!
- Sul nesaf Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd yn Neuadd Llanfair am 10.00 a'r Ysgol Sul am 11.00. Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd yng Nghewn Meiriadog am 10.30 a'r Ysgol Sul am 2.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron ac ym Mheniel am 10.00.
- Sul nesaf Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd ym Mheniel am 10.00 a'r Ysgol Sul am 2.00. Bydd Rhodri yn arwain **oedfa deulu** yn Saron am 10.00. Ni fydd Ysgol Sul.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00 gyda phlant y ddwy eglwys yn cyfarfod yn Groes.
- Gwener Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd Undebol yn Ffestri Henllan am 2.00.
- Sul nesaf Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd yn Groes am 10.00 a'r Ysgol Sul am 2.00. Cynhelir Gwasanaeth Gŵyl Ddewi Undebol yng Nghapel Henllan am 2.00 dan arweiniad Mr Peter Smith, a'r Ysgol Sul am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Trefniant 'Adnabod Dawn' fydd i'r daith heddiw. Bydd Celfyn Williams yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 a Sioned Williams yn arwain oedfa yng Nghewn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghewn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 11.15.
- Gwener Bydd Clwb Cinio yr ardal yn cyfarfod yng Nghewn Berain am 12.00. Croeso mawr i bawb!
- Sul nesaf Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd yn Llanefydd ac yng Nghewn Berain am 2.00 a'r Ysgol Sul yn y ddwy eglwys am 10.00.